

LINETTE HAINES GSM (NI) MBE

ETIFEDDIAETH

Ganed Linette Haines ar ynys St Kitts cyn symud i Gymru yn blentyn.

Roedd ei phrofiadau cynnar, ynghyd â'i gyrfa yn y Fyddin ac yn y Gwasanaeth Sifil, a'r bobl a gyfarfu â hwy ledled y DU ac ar draws y byd, yn ei llunio hi fel oedolyn.

"Mae'r cyfan yn gymhleth ac fe wnaeth fy ngwneud yr hyn ydw i."

CYMRU YW...

CARTREF TEULU ADDYSG

Dywed Linette nad oedd hi'n sylweddoli pa mor Gymreig oedd hi nes iddi fyw a gweithio yn America ac Awstralia.

Roedd bod i ffwrdd ynei gwneud yn glir iddi mai Cymru - ei diwylliant, ei phobl a'i gwerthoedd - oedd cartref.

"Mae yna deimlad - cynefin - na allwch ei egluro. Rydych chi'n ei wybod pan rydych chi'n ei wybod."

“PEIDIWCH BYTH AG YMDDIHEURO AM EICH PRESENOLDEB.”



LLUOEDD ARFOG



CYFRANIAD

Bu Linette yn gweithio i'r Weinyddiaeth Amddiffyn ac yn gwasanaethu yn y Fyddin Brydeinig.

Teithiodd yn eang a dal swyddi o gyfrifoldeb uchel, yn aml fel yr unig fenyw ddu yn yr ystafell, gan weithio mewn timau bychain uchel eu statws.

Am ei gwasanaeth dyfarnwyd MBE iddi.

Heddiw mae'n parhau i gyfrannu drwy wirfoddoli, prosiectau fel Human Book a rhannu profiadau bywyd â phobl eraill.

CRYFDERAU A LLAWENYDD

Un pleser bach sydd gan Linette heddiw yw 'bubblegum' - unwaith wedi'i wahardd yn ystod hyfforddiant, ond bellach yn cael ei fwynhau'n rhydd.

“MAE POPETH RYDYCH CHI'N EI DDWEUD, POPETH RYDYCH CHI'N EI WNEUD, A PHOB LLE RYDYCH CHI, YN CAEL EFFAITH.”